**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil Bathodynnau Parcio Personau Anabl**

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Bathodynnau Parcio Personau Anabl, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

## Y Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd ym mharagraff 1 uchod wedi ei gyflwyno gan Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (RhS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan RhS 29. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru, at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cyflwynwyd y Bil Bathodynnau Parcio Personau Anabl i Senedd y DU ar 20 Mehefin 2012. Cewch gopi o'r Bil yn:

http://services.parliament.uk/bills/2012-13/disabledpersonsparkingbadges.html

## 4. Crynodeb o'r Bil a'i amcanion polisi

4.1 Bil Aelod Preifat yw hwn a gafodd ei ail ddarlleniad ar 6 Gorffennaf 2012. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ni chaiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei osod mewn perthynas â Bil Aelod Preifat oni bai bod y Bil yn parhau yn Fil perthnasol ar ôl y cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ lle y'i cyflwynwyd.

## 5. Cynigir bod y Bil yn gwneud y darpariaethau canlynol:

5.1 **Diddymu bathodynnau**: Bydd y Bil yn darparu pŵer deddfwriaethol penodol i'r awdurdodau i ddiddymu bathodyn person anabl ("Bathodyn Glas") o dan rai amgylchiadau (ee pan fo bathodyn yn cael ei ddefnyddio o hyd, er y dylai fod wedi ei ddychwelyd i'r awdurdod). Bydd hefyd yn cryfhau'r pŵer sydd gan awdurdodau gorfodi mewn sefyllfaoedd lle, efallai, y bydd deiliad bathodyn yn parhau i ddefnyddio'r bathodyn gwreiddiol er bod un arall wedi ei roi yn ei le.

Bydd hyn y sicrhau na fydd byth unrhyw amheuaeth ynghylch statws cyfreithiol y bathodyn.

5.2 **Arolygu bathodynnau:** Bydd y Bil hefyd yn diwygio pwerau awdurdodau lleol i arolygu Bathodynnau Glas fel bod swyddogion dirprwyedig nad ydynt mewn iwnifform yn gallu arolygu'r bathodynnau. Ar hyn o bryd dim ond yr heddlu a swyddogion gorfodi sifil mewn iwnifform sydd â'r pŵer i arolygu bathodynnau.

5.3 **Pŵer i awdurdodau lleol adfeddiannu bathodynnau:** Bydd y Bil hefyd yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol i adfeddiannu Bathodynnau Glas ar y stryd o dan rai amgylchiadau, a hynny drwy law'r heddlu a swyddogion gorfodi sifil. Mae enghreifftiau'n cynnwys bathodynnau sydd wedi eu diddymu; bathodynnau y mae'n bryd iddynt gael eu dychwelyd i'r awdurdod lleol; bathodynnau sy'n cael eu camddefnyddio neu fathodynnau ffug. Ar hyn o bryd dim ond yr heddlu sydd â'r pŵer i adfeddiannu Bathodynnau Glas ar y stryd. Rhagwelir y bydd y pwerau newydd hyn yn helpu i atal rhagor o achosion o gamddefnyddio Bathodynnau Glas.

5.4 **Dychwelyd y bathodyn i'r awdurdod dyroddi:** Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud hi'n drosedd i ddefnyddio bathodyn y dylid bod wedi ei ddychwelyd i'r awdurdod dyroddi, er enghraifft pan nad yw deiliad y bathodyn bellach yn gymwys i'w gael, neu pan fo deiliad y bathodyn wedi marw. Bydd hyn yn sicrhau bod nifer yr achosion o dwyll sy'n ymwneud â'r Bathodynnau Glas yn lleihau.

5.5 **Y Lluoedd Arfog:** Bydd y Bil hefyd yn llacio'r gofynion o ran preswylio er mwyn helpu'r rhai sydd yn y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ac sydd wedi eu hanfon dramor i safleoedd y DU, ac sy'n bodloni'r gofynion o ran bod yn gymwys i gael bathodyn, i wneud cais am fathodyn drwy'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r gyfraith bresennol yn darparu y gellir dyroddi bathodyn i bersonau anabl o unrhyw ddisgrifiad rhagnodedig ar yr amod eu bod yn preswylio yn ardal yr awdurdod dyroddi. Fodd bynnag, gallai aelodau o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi a'u teuluoedd gael eu hanfon i safleoedd y DU mewn gwledydd tramor ac o ganlyniad gallai eu preswyliad yn ardal unrhyw awdurdod dyroddi ddod i ben. Ar y llaw arall, os yw ymgeisydd y preswylio ar un o safleoedd y DU mewn gwlad dramor, mae'n bosibl na fyddant yn cael eu hystyried yn breswylydd yn y wlad lle y mae'r safle hwnnw at ddibenion cynlluniau lleol sy'n cyfateb i'r Cynllun Bathodynnau Glas. Nod y Bil hwn yw cael gwared ar y rhwystr hwn rhag cael bathodyn.

5.6 **Amrywiol:** Bydd hefyd yn dileu'r gofyniad i Lywodraeth Cymru ragnodi dyluniad y bathodyn mewn rheoliadau er mwyn atal twyllwyr rhag cael gafael ar fanylion diogelwch dyluniad y bathodyn newydd. Bydd hyn hefyd yn atal yr angen i orfod gwneud rheoliadau newydd bob tro y bydd manylion diogelwch y bathodyn yn cael eu diwygio yn y dyfodol.

6. **Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

6.1 Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau sy'n gymwys yn yr un modd i Gymru ac i Loegr o ran diwygiadau i'r Cynllun Bathodyn Glas. Mae'r Bil yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 ("DCCPhA 1970") a Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("DRhTFf 1984").

6.2 Mae Cymal 1 yn gwneud diwygiadau o ran ffurf y bathodyn. Mae'n diwygio adran 21 o DCCPhA 1970 ac adran 117 o DRhTFf 1984 er mwyn dileu'r cyfeiriad at ffurf ragnodedig y bathodynnau a fydd yn atal rheoliadau yn y dyfodol rhag gorfod pennu ffurf y bathodyn, a thrwy hynny cynyddu diogelwch a lleihau achosion ffugio.

6.3 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.2 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.4 Mae Cymal 2 yn ymwneud â diddymu bathodynnau parcio ac yn mewnosod is-adran (7AB) newydd yn adran 21 o DCCPhA 1970. Mae'r is-adran (7AB) newydd yn caniatáu i awdurdod lleol ddiddymu bathodyn os yw'n ymddangos i'r awdurdod nad yw'r bathodyn bellach ym meddiant y person y dyroddwyd y bathodyn iddo am fod y bathodyn ar goll neu wedi ei ddwyn, neu am unrhyw reswm arall.

6.5 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.4 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.6 Mae Cymal 3 yn delio â'r defnydd o fathodynnau parcio nad ydynt bellach yn ddilys. Caiff is-adran (4BZA) newydd ei mewnosod yn adran 21 o DCCPhA 1970 gan greu trosedd newydd, sef gyrru cerbyd modur ar ffordd gan arddangos bathodyn sydd wedi ei ddiddymu neu fathodyn a ddylai fod wedi ei ddychwelyd i'r awdurdod dyroddi.

6.7 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.6 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.8 Mae Cymal 3 hefyd yn mewnosod is-adran (1ZA) newydd yn adran 117 o DRhTFf 1984. Mae'r is-adran (1ZA) newydd yn diwygio'r drosedd yn adran 117(1), sef defnyddio cerbyd gan arddangos bathodyn, a hynny er mwyn cynnwys bathodynnau sydd wedi eu diddymu neu fathodynnau a ddylent fod wedi eu dychwelyd i'r awdurdod dyroddi.

6.9 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.8 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad

fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.10 Mae Cymal 4 yn delio â gorfodi ac mae’n diwygio adran 21(4BB) o DCCPhA 1970 er mwyn cynnwys darpariaeth ar gyfer arolygu bathodynnau gan bersonau a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu sydd wedi eu hawdurdodi gan yr awdurdod i gyflawni'r swyddogaethau hynny ("swyddogion nad ydynt mewn iwnifform").

6.11 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.10 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.12 Mae Cymal 4 hefyd yn mewnosod is-adran 21(4BE) newydd sy'n darparu nad yw hi'n drosedd i wrthod cydymffurfio â chais gan swyddog nad yw mewn iwnifform i ddangos bathodyn er mwyn ei arolygu pan na fo’r swyddog hwnnw nad yw mewn iwnifform yn dangos tystiolaeth am ei awdurdod.

6.13 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.12 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.14 Mae Cymal 4 hefyd yn mewnosod is-adran (4D) newydd yn adran 21 o DCCPhA 1970 er mwyn caniatáu i swyddogion gorfodi (gan gynnwys swyddogion nad ydynt mewn iwnifform) a chwnstabliaid yr heddlu i gadw bathodyn a gyflwynwyd i gael ei arolygu os oes gan y cwnstabl neu'r swyddog sail resymol dros gredu nad yw'r bathodyn yn ddilys (am y rhesymau a nodwyd yn yr is-adran).

6.15 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.14 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.16 Mae Cymal 5 yn delio â gofyniad yr awdurdod lleol i ddychwelyd bathodyn. Mae Cymal 5 yn diwygio adran 21(7D) o DCCPhA 1970 i ddarparu, pan fo angen dychwelyd bathodyn a gyhoeddwyd gan awdurdod lleol yng Nghymru i'r awdurdod dyroddi, y caiff y rheoliadau ragnodi'r terfyn amser erbyn pryd y mae’n rhaid dychwelyd y bathodyn, a bod rhaid i’r bathodyn beidio â chael ei arddangos ar unrhyw gerbyd ar ôl yr amser hwnnw.

6.17 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.16 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel a nodir ym Mhwnc 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

7. **Manteision defnyddio'r Mesur hwn**

Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod hi'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan ei fod yn cynnig y cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted â phosibl ac i sicrhau cysondeb yn y darpariaethau ar gyfer Bathodynnau Glas ar draws Cymru a Lloegr.

8. **Goblygiadau Ariannol**

Ni fydd unrhyw wariant cyfalaf na gwariant refeniw cysylltiedig os cytunir ar yr argymhellion ym mharagraff 3. Yr awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun ar hyn o bryd ac nid yw'r newidiadau yn gosod unrhyw ddyletswyddau ychwanegol arnynt.

**Carl Sargeant**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Gorffennaf 2012**